PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 156 | Rhif 25 | Mehefin 22, 2023 | 50c.

## Sulgwyn Saron Creunant

Ar y Sulgwyn, sef Sul 28 Mai, fe gynhaliwyd oedfa a pharti ar lawnt y capel sef Saron, Creunant. Daeth tyrfa lewyrchus o bobl i'r capel. Yno roedd gweithgareddau ar gael i bobl o bob oedran, gan gynnwys; addurno creigiau neu ... bownsio yn y castell gwynt!

Cafodd pawb amser hyfryd a llawer iawn o hwyl yn eistedd allan yn yr haul wrth fwynhau danteithion o'r bwffe a'r barbeciw.

Cynhaliwyd oedfa awyr agored yn ystod y parti lle ddarllenwyd o Actau 2 er mwyn ein hatgoffa o ddigwyddiadau'r Sulgwyn cyntaf. Braf oedd clywed am y Sulgwyn yn Jerwsalem dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl ac am y ffaith ei fod Ef, y Cysurwr, sef Ysbryd Duw, gyda ni heddiw fel credinwyr.





## Ethol darpar Lywydd newydd



Llawenydd yw datgan mai'r Parchg Owain Llŷr Evans, Caerdydd a etholwyd yn ddarpar Lywydd yr Undeb. Mae'n adnabyddus yn ein plith, wedi gweinidogaethu yn ardal Rhosllannerchrugog am rai blynyddoedd cyn symud i'r brifddinas i wasanaethu yn eglwys Minny Street yn 2002.

Ef yw cadeirydd adran Eglwysi a'u Gweinidogaeth y Cyngor ac y mae'n aelod o'r Pwyllgor Gweinyddol.

Llongyfarchion cynnes iddo a phob dymuniad da a bendith iddo yn y gwaith.




Arfer rhai wrth gyfarfod ffrindiau yw gofyn y cwestiwn, 'Pa newydd?' Hoffwn innau ofyn i chi ddarllenwyr *Y Tyst*. Pa newydd? Beth sydd yn digwydd yn eich eglwys chi?

Beth am i chi rannu ychydig o'r hanes gyda darllenwyr *Y Tyst*? Mae llu o weithgareddau yn digwydd nad ydym yn clywed amdanynt. Gall unrhyw un o Fôn i Fynwy – a thu hwnt – anfon cyfraniad neu lun atom. Mae straeon ac adroddiadau yn annog eglwysi eraill i wneud yr un modd. Rydym i gyd ynglŷn â gwaith yr Arglwydd Iesu Grist.

Anfonwch eich cyfraniadau at **aluntudur@btinternet.com**

## COFFI, CACEN, CLONC...A CHYFRANNU!

'Te a theisen ... coffi, cacen a chlonc.' Dyna oedd yr addewid i bawb a fyddai'n mynychu'r achlysur blynyddol ym Mwlch-y-corn i godi arian tuag at Cymorth Cristnogol. A dyna a gafwyd. Ar noson hyfryd o haf cynnar, gyda natur yn ei gogoniant o gwmpas y capel bach gwledig, fe wnaeth aelodau a ffrindiau ymgynnull i fwynhau'r gwmnïaeth a'r ymborth. Roedd yr apêl eleni tuag at brynu had i ffermwyr Malawi, a braf cofnodi bod dros £400 wedi cael ei godi ar y noson. Braint oedd cael cyfrannu ychydig o'n digonedd tuag at bobl llai ffodus na ni, a hynny yn enw Iesu Grist.



# Colofn Geir-iau

## Cymru o dan ddŵr ac yn colli tir


Gyda llifogydd yn ein hwynebu bob blwyddyn, daw mwy o wybodaeth am y berthynas rhwng cynhesu byd eang a thywydd eithafol sy'n achosi difrod i'r byd, i'n papurau newyddion, sgriniau a'n llyfrau. Hawdd yw hi hefyd yw dod o hyd i fapiau a lluniau digidol i weld sut le fydd y byd yn edrych ymhen 10, 50, 100 mlynedd. Lluniau cyfarwydd y gwelwn nawr yw effeithiau cynhesu byd eang ar lefydd ar draws y byd – tywydd eithafol, colli gofodau naturiol, difetha cynefinoedd gwyllt, ymysg nifer o ffactorau eraill.

Rydyn ni eisoes yn gwybod bod lefelau'r môr yn codi. Yn ôl climate.gov mae lefel byd eang y môr wedi codi 20cm ers 1880. Os byddwn yn gallu lleihau lefelau allyriadau nwyon tŷ gwydr, fe fydd lefelau'r dŵr dal y codi tua 0.6m rhwng 2000 a 2100 yn UDA. Anochel yw hi felly, ein bod am golli ein tir. Mae ehangiad thermol yn achosi i rewlifoedd cyfandirol ymdoddi, sy'n arwain at lefelau'r môr i godi fel canlyniad i hyn. Felly, mae llefydd a fydd yn profi llifogydd blynyddol o dan fygythiad ychwanegol o foddi.

### Cymru'r dyfodol

Mae'r mapiau sydd ar wefan Climate Central yn canolbwyntio ar lefelau'r môr yn cynyddu, ac effaith hynny ar gymunedau ar draws y byd – yn bennaf, cymunedau arfordirol. Mae darganfyddiadau'r map wedi'u seilio ar y ffaith bod tymheredd byd eang yn codi gan 2 gradd, gan ddilyn adroddiad yr IPPC, sydd wedi datgan fod cynnydd o 1.5 gradd yn anochel. Yn ddiweddar, fe ddes i ar draws map o Gymru <https://coastal.climatecentral.org/map/13/-3.1571/51.4749/?theme=sea_level_rise&map_type=year&basemap=roadmap&contiguous=true&elevation_model=best_available&forecast_year=2050&pathway=rcp45&percentile=p50&refresh=true&return_level=return_level_1&rl_model=gtsr&slr_model=kopp_2014>, a oedd yn dangos pa ardaloedd fydd o dan ddŵr yn y flwyddyn 2050.

Mae'r ardaloedd yma'n cynnwys Rhyl, Casnewydd a Chaerdydd, Llanelli, Porthmadog a Llandudno. Mae'n wir i ddweud fod pob ardal yn agored i niwed o effeithiau newid hinsawdd, yn enwedig y cymunedau sy'n agos i'r arfordir. Bydd cymunedau fel Machynlleth a Harlech yn




dod yn drefi arfordirol wrth i'r ardaloedd cyfagos orlifo. Yn yr un modd, mae cymunedau ar ynys Môn – ardal afon Cefni – yn yr un perygl. Mae colli tir yn golled enbyd i'n cymunedau, boed yn dir ffermio, tir byw, tir chwarae, tir addysg. Mae'n dir ble mae cynefinoedd yn byw, ac wedi'u sefydlu ers miloedd o flynyddoedd a mwy. Ond, rydyn ni'n colli mwy a mwy o diroedd pob blwyddyn.

### Pwy sy'n poeni?

Mae cynnydd wedi bod yn y nifer sy'n pryderu am ddyfodol y blaned. Mewn arolwg dywedodd 76% o Gymry eu bod yn bryderus am y ddaear yn 2018–19, o gymharu â 67% yn 2016–17. Amlwg felly, bod pobl poeni – sy'n ddechreuad. Heb bryderu, ni fydd llawer o weithredu yn digwydd – a'r galw am newid.

Mae'n wir i ddweud hefyd fod llawer o bobl ond yn poeni os yw eu tir *nhw* o dan fygythiad sylweddol, neu'n dioddef o effeithiau'r argyfwng yn barod. Efallai mai dyma un o'r rhesymau mae'r Deyrnas Unedig wedi bod yn araf yn ymateb i'r sefyllfa. Mae angen mwy o bwyslais er mwyn sicrhau fwy o newid. Yn yr un modd, mae rhai gwledydd yn wynebu mwy o fygythiad na Chymru. Yn ôl yr un map, yr ardaloedd sydd o dan fygythiad mawr o fynd o dan ddŵr erbyn 2050 ydy Bangladesh, De Fietnam ac ynysoedd yn Ne America gan gynnwys y Bahamas.

Fel arfer y gwledydd sy'n cyfrannu lleiaf tuag at gynhesu byd eang, yw'r rhai sy'n dioddef mwyaf hefyd, sy'n cynnwys Bangladesh. Mae'r wlad yn cyfrannu 0.5% tuag at allyriadau carbon y byd. Mae hefyd yn gweithredu'n arloesol wrth ragfynegi ac amddiffyn y wlad rhag trychinebau, gan ddarganfod ffyrdd newydd o ddiogelu'r wlad drwy ddefnyddio adnoddau naturiol. Wrth wneud hyn hefyd, mae'r cymunedau yn dod yn fwy ymwybodol o effeithiau'r newidiadau byd eang.

Siaradais gydag Ineza Umuhoza Grace, actifydd amgylcheddol ifanc o Rwanda. Roedd gwrando ar brofiad uniongyrchol Ineza o effeithiau cynhesu byd eang yn dorcalonnus. Oherwydd y tywydd eithafol, gorfodwyd i fenywod a phlant ei hardal leol symud oherwydd erydiad a llifogydd a oedd yn beryg bywyd. Roedd hyn yn digwydd yn aml. Yn rhy aml. Yn 2020, collwyd 4,000 hectar o dir amaethyddol o ganlyniad i law a llifogydd.

Daw hyn yn fwy o norm mewn ardaloedd gwahanol ar draws y byd. Fel dinasyddion, mae'n *rhaid* i ni ymateb mewn ffordd i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'n gwlad ni. Ond yn bwysicach fyth, angenrheidiol yw hi i ddangos cymorth ac undod gyda gwledydd sy'n dioddef yn barod, ac atal cynhesu byd eang rhag dod yn bla byd eang, gan fod y byd yn dioddef yn barod.

**Nel Richards**



*[Mae Nel Richards yn 21 oed ac yn dod yn wreiddiol o Gwm Tawe ond bellach mae'n byw yn Llundain. Mae ganddi ddiddordeb mewn newyddiaduraeth amgylcheddol a diwylliannol. Ym mis Medi, fe fydd hi'n cychwyn astudio gradd meistr mewn gwleidyddiaeth a'r amgylchedd. Enillodd Nel ysgoloriaeth Geraint George yn yr Urdd eleni. Bwriad yr ysgoloriaeth yw meithrin cyfathrebwyr ifanc i helpu pobl ar draws y wlad werthfawrogi'r amgylchedd a'r byd naturiol, i ddeall ei werth a dysgu am y ffactorau sy'n newid yn yr hinsawdd.]*

## GOFALAETH BRO MORGANNWG

Gwahoddir ceisiadau ac ymholiadau cyn diwedd Mehefin 2023 oddi wrth weinidogion ordeiniedig neu dan hyfforddiant sydd â diddordeb i fod yn weinidog llawn amser ar Ofalaeth Bro Morgannwg, sef Eglwys Annibynnol Gymraeg Y Barri ac Eglwys Annibynnol Gymraeg Bethel Penarth.

Am fanylion, cysyllter ag Alwena Harries, ysgrifenyddes Bethel.

**Ffôn: 02920 700272**
**Symudol: 07891 587373**
**E-bost: alwenaharries@gmail.com**

Yr Adran Gydenwadol

MEHEFIN 22 2023 RHIF 121

## Gwylnos Heddwch yn cael ei chynnal bob mis i ddangos cefnogaeth i bobl Palestina

cymorth cristnogol

Mae nifer o gefnogwyr Cymorth Cristnogol yn paratoi i gynnal eu 30ain gwylnos fel rhan o'r mudiad heddwch ym Mhalestina.

Mae Cymorth Cristnogol yn sefyll yn gadarn gyda pobl ym Mhalestina ac Israel sy'n galw am heddwch cyfiawn.

Mae'r gwylnosau'n rhan o fenter gan fforwm Palestina o Gynghrair ACT, grŵp o fwy na 145 o eglwysi a mudiadau ledled y byd; mae Cymorth Cristnogol yn aelod o'r gynghrair hon.

Mae ACT Palestina yn annog grwpiau i gynnal gwylnos weddi am 8yh ar y 24ain o bob mis hyd nes y bydd Israel yn ildio Tiroedd y Meddiant, y trais yn y Dwyrain Canol yn dod i ben, ac y gall pawb ddathlu datrysiad cyfiawn a pharhaol yn y rhanbarth.

Mae Gwylnos Heddwch Cymorth Cristnogol Cymru wedi bod yn digwydd ers mis Ionawr 2021.

Eglurodd Llinos Roberts, Swyddog Ymgysylltu a Chodi Arian Cymorth Cristnogol, y bydd y 30ain gwylnos yn cael ei chynnal ar 24 Mehefin.

"Rydym yn cyfarfod dros Zoom am hanner awr ac yn gwmni o oddeutu 20 bob mis," meddai. "Fase'r gwylnosau hyn ddim wedi bod yn bosib heb yr arweinwyr gwych sydd gennym o fewn y grŵp a'n siaradwyr gwadd, yn ogystal â'n cefnogwyr selog.

"Mae sawl un o'r grŵp wedi ymweld â'r rhanbarth gyda'r Rhaglen Gysylltu Ecwmenaidd ym Mhalestina ac Israel (EAPPI), ac mae ein cyfranwyr hefyd yn ymwneud â Chymdeithas y Cymod yng Nghymru, Cofleidio'r Dwyrain Canol (*Embrace the Middle East*) ac Amnest Rhyngwladol.

"Mae ein gwylnosau wedi cymryd sawl ffurf dros y misoedd – rhai'n dawel gyda chanhwyllau, eraill yn rhoi'r diweddaraf gan bartneriaid a staff Cymorth Cristnogol, adolygiadau llyfrau, a phrofiadau byw yn dilyn ymweliadau i Gaza ac i Israel a Thiroedd y Meddiant.

"Yn ogystal â'n cyfarfodydd misol, bu ein haelodau'n gweddïo yn eu hardaloedd lleol ar 24 Chwefror dros y sefyllfa yn Wcráin, ac fe fyddwn yn cynnal Gwylnos Heddwch yn yr Eisteddfod Gendlaethol ym mis Awst.

"O ran y dyfodol fel grŵp, rydyn ni'n edrych am ffyrdd i allu cydweithio i gefnogi partneriaid Cymorth Cristnogol yn y rhanbarth. Yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, fe fyddwn yn croesawu *Embrace the Middle East* ac Amnest Rhyngwladol i'n huned am ddiwrnod yr un, ac fe fyddwn yn cynnal gwylnos gyda'r hwyr ar y nos Lun."

Am fwy o wybodaeth ynghylch sut i ymuno â Gwylnos Heddwch, cysylltwch â: lroberts@christian-aid.org

## Cymanfa Bregethu Gydenwadol Rhoshirwaun

Yn 1923 y cynhaliwyd y Gymanfa Bregethu Gydenwadol gyntaf yn Rhoshirwaun, Llŷn. Caiff enwau tri o frodyr da'r ardal eu cysylltu â'r cychwyniadau, sef Thomas Hughes, Tŷ Canol, amaethwr a blaenor ffyddlon yng nghapel Pisgah (EF); Griffith Jones, Efail Rhos, gof, diacon ac arweinydd y gân yng nghapel Bethesda (B); ac Ellis Roberts, Bryn Meina, amaethwr a blaenor ffyddlon gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ym Mhenycaerau. Dywed rhai mai ymgom rhwng Ellis Roberts a Thomas Hughes ar ddiwrnod dyrnu yn Nhŷ Canol a ddechreuodd y drafodaeth. Dywed eraill mai Griffith Jones, y gof, a wnaeth yr awgrym cyntaf. Ond pa wahaniaeth? Cytunir mai i'r tri hyn y mae'r clod am y syniad o gynnal Cymanfa Bregethu Gydenwadol.

Rhaid cofio mai adeiladu'r neuadd oedd y symbyliad cyntaf. Heb adeilad, ofer breuddwydio am gymanfa, a bu'r neuadd yn gartref i'r gymanfa dros y blynyddoedd. Byddai pregethwyr yn cynrychioli'r pum enwad yn cymryd rhan yn y gymanfa dros ddau ddiwrnod ganol Awst, ar bnawn a nos Fercher, a bore, pnawn a nos Iau. Gyda dau bregethwr ymhob oedfa, caed deg pregeth dros ddau ddiwrnod!

Gyda'r gynulleidfa yn heneiddio ac yn teneuo, bu'r pwyllgor yn trafod a phendroni ynghylch y ffordd ymlaen a sut i achub y gymanfa. Gofynnwyd am sylwadau'r ffyddloniaid. Roedd y mwyafrif llethol am newid y drefn (er nad oedd y pwyllgor yn unfrydol) a'r drefn wahanol yn dal o hyd. Rhoddodd y COFID orfodaeth arnom i ohirio'r oedfaon yn 2020/21 a 2022, felly collwyd ei phen-blwydd yn gant oed y llynedd.

Cynhelir y gymanfa nos Fercher, 16 Awst, a nos Iau, 17 Awst, eleni. Bydd y gwasanaethau fel a ganlyn:

**Nos Fercher am 6.30 y.h.**
Y Parchedig Carol Roberts (Eglwys yng Nghymru)
Y Parchedig Huw Dylan Jones (B)

**Nos Iau am 6.30 y.h.**
Y Parchedig Carwyn Siddall (A)
Y Parchedig Ifor ap Gwilym (EBC)

Estynnir croeso cynnes i bawb. Edrychir ymlaen at gymanfa fendithiol eleni eto.

Er yn hen ei hoedran hi
Nid yw hon yn dihoeni

meddai'r diweddar Barchedig Roger Jones.

Ceisiwn atal y dihoeni. Bydd y gefnogaeth i'r gymanfa eleni yn penderfynu ar ei dyfodol!

*Doris Jones*
*Hebron, Llŷn*

# O Gefn Gwlad

## Y Cennad, nid y Genhadaeth


Llun: Josh Applegate - Unsplash

Er pan gyhoeddwyd y ffigyrau am stad Cristnogaeth yng Nghymru a'r niferoedd sy'n mynychu lle o addoliad ar y Sul, rwyf wedi bod yn pendroni o dro i dro am y rhesymau pam y digwyddodd hyn. O dro i dro, dwi'n dweud, nid o hyd, neu fe fyddwn wedi mynd yn benwan!

Digwyddodd ddiwethaf pan oeddwn yn gwrando ar yr artist Gareth Owen yng Nghanolfan Cantref, y Bala, yn ddiweddar, yn esbonio'i ymateb mewn celf i bryddest radio Kitchener Davies, *Sŵn y gwynt sy'n chwythu.* Mi gofiais ddisgrifiad y bardd ohono'i hun yn dychwelyd o angladd ei fam:

> Wyt ti'n cofio dod 'nôl yn nhrap Tre-wern
> o angladd mam? Ti'n cael bod ar y sêt flaen gydag Ifan
> a phawb yn tosturio wrthyt, – yn arwr bach, balch.

Mi gofiais hefyd am rieni Gareth – Ifor Owen a'i briod, Winnie. Roedd y tad yn brifathro yng Ngwyddelwern pan fu fy mam innau farw, nid yn chwech oed fel y bardd ond yn un ar bymtheg. Ond colli mam yw colli mam. Nhw eu dau yn unig fynegodd eu cydymdeimlad â mi. Roedden ni'n dri o blant, ond fy nhad gafodd y sylw a'r geiriau cysur i gyd. Dros ddeng mlynedd a thrigain yn ddiweddarach, nid chwilio am dosturi hwyr yr wyf, ond mynegi ffaith, a gofyn pam? Ac mi wn i'r ateb.

Gweinidog oedd fy nhad, Gweinidog y Methodistiaid Calfinaidd yng Ngwyddelwern. Tase fo'n ffarmwr, yn ddyn ffordd neu'n chwarelwr, mi fasen ni'r plant wedi cael cymaint o sylw â fo achos nid difeddwl bobl yr ardal bryd hynny. Na, y fo oedd y Gweinidog, dyna'r rheswm, a doedd gweinidogion yn y cyfnod hwnnw fawr is na'r angylion mewn gogoniant.

Mi gofiaf falchder y blaenoriaid sawl tro wrth gyhoeddi pwy fyddai'n pregethu y Sul canlynol: 'Proffesor David Phillips o Goleg y Bala' yn un, gyda'r pwyslais ar y Proffesor, oedd, gyda llaw, y mwya dirodres o ddynion. Gan eraill yr oedd y rhodres! Gallwn fynd ymlaen i sôn am falchder cyhoeddi'r Parchedig Ddoctor hwn a hwn i'r pwlpud. Ac os mai Cenhadwr o Fryniau Casia oedd y cennad, câi ei gyflwyno fel pe bai'n frenin, ac fe edrychem ni, aelodau'r gynulleidfa, arno fel tase coron ar ei ben!

Bryd hynny, yn fy ieuenctid, roedd gweinidogion ym mhobman megis duwiau, yn ennyn parch ac edmygedd, addoliad bron. Clywais adrodd am Philip Jones, Porth-cawl, yn pregethu yn rhywle, ac ugeiniau o bobl y tu allan i'r capel yn aros amdano. A phan ddaeth, y dyrfa'n gwahanu megis y Môr Coch i greu llwybr iddo i rodio'n urddasol tua drws y capel. A'r llu yn moesymgrymu iddo fel tase fo'n Grist Sul y Palmwydd. Mi gofiaf innau, ar fy ngwyliau yn Llŷn, sefyll gyda chriw mawr o ieuenctid ar fin nos i aros dyfodiad Tom Nefyn i gyfarfod hwyr yng Nghapel Tudweiliog un Awst pell yn ôl.

Ie'r Cennad yn arwr a'i genadwri yn aml yn adloniant, nid yn genhadaeth. A falle bod y pry yn y pren eisoes cyn i wrogaeth y 'saint' roi gweinidogion ar bedestal. Ai yn y Saesneg y defnyddiwyd y gair 'Reverend' gynta, tybed? Gair sy'n dod o'r Lladin *reverendus* gyda'i ystyr: 'yn haeddu parch'? Wn i ddim ac nid yw o bwys chwaith. Yr hyn sy'n bwysig yw i weinidogion ddod yn Barchedig a rhai uwch eu stad yn yr eglwys yn Wir Barchedig. Mae'n bosib i sawl gweinidog ddod i ddisgwyl yr wrogaeth hon, ond ar y cyfan ni, addolwyr, fu'n euog o'u clodfori.

O leia gallwn fel anghydffurfwyr ddatgan mai clodfori personau wnaethon ni, ac nid uchel swyddi fel y gwnaeth yr Eglwys Wladol a'r Eglwys Babyddol. A gallem ddannod iddynt hwy hefyd eu hoffter o eiconau a delwau sy'n ymylu, os nad gwaeth, yn aml ar eilunaddoliaeth. Ond ni thâl ymffrostio!

A dychwelyd at y broses o barchedigo ein gweinidogion yn y gorffennol, a gollwyd o wneud hyn y genhadaeth, yr efengyl, gyda'r negesydd yn bwysicach na'i neges? A yw hyn yn rhannol gyfrifol am y dirywiad heddiw? Ni allaf ond dyfalu, ond fe roes i mi, yn anffodus falle, lwybr i'r meddwl droedio ar hyd-ddo, yn hytrach na llawn wrando ar Gareth Owen yn esbonio'i ymateb i gerdd Kitchener Davies un noson waith yn y Bala.

*Elfyn Pritchard*



**ADNABOD** Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 29 Beth am Lot?

### Darllen: Genesis 19:1–38

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t.120)

Cyn mynd i'r afael â'r digwyddiadau sy'n cael eu croniclo yn y bennod hon, rwyf am geisio deall Lot, a hynny yng ngoleuni'r hyn y mae Pedr yn ei adrodd amdano. Yn ei ail lythyr, dywed Pedr: 'Gwaredodd Lot, gŵr cyfiawn oedd yn cael ei drallodi gan fywyd anllad rhai afreolus; oherwydd wrth i'r gŵr cyfiawn hwn fyw yn eu plith, yr oedd gweld a chlywed eu gweithredoedd aflywodraethus yn artaith feunyddiol i'w enaid cyfiawn' (2 Pedr 2:7–8). I ba raddau, tybed, y byddech chi, o ddarllen pennod 19 o Genesis yn barod i ddweud am Lot ei fod yn 'ŵr cyfiawn oedd yn cael ei drallodi ...' a bod bywyd pobl Sodom yn 'artaith feunyddiol i'w enaid cyfiawn'? Yn ei esboniad ar y bennod hon mae Derek Kidner yn cyfeirio at Lot fel y 'gŵr cyfiawn heb ysbryd pererin'.

Tebyg fod angen atgoffa ein hunain o dermau yn y Beibl, yn arbennig felly'r defnydd o'r gair 'cyfiawn'. Mae'n cael ei ddefnyddio yn yr ystyr foesol, hynny yw, mae rhywun yn byw yn gyfiawn yn foesol, a hefyd mewn termau 'cyfreithiol', yn benodol cyhoeddiad Duw mewn perthynas â'n statws o'i flaen. Duw cyfiawn sy'n cyfiawnhau'r annuwiol yw Duw'r Beibl, Duw a Thad yr Arglwydd Iesu Grist. Nid yn unig y byddaf yn cael anhawster â'r disgrifiadau o Abraham fel gŵr cyfiawn, ond drwy'r Beibl down wyneb yn wyneb â'r paradocs rhwng yr hyn y mae Duw yn medru ei gyhoeddi amdanom drwy ras a thrwy waith Iesu drosom a'r hyn yr ydym yn ei wybod amdanom ein hunain ac am eraill.

Un o ymadroddion mwyaf cyfarwydd y diweddar Tim Keller, gweinidog Presbyteraidd Reedemer yn Efrog Newydd, oedd: 'Rydych yn fwy pechadurus nag y medrwch fyth ei ddychmygu, ond rydych wedi eich caru â chariad mwy nag y medrwch fyth ei ddychmygu'. Yng ngeiriau Paul: 'O ddyfnder cyfoeth Duw, a'i ddoethineb a'i wybodaeth! Mor anchwiliadwy ei farnedigaethau, mor anolrheiniadwy ei ffyrdd!' (Rhufeiniaid 11:33) Yng nghyswllt Lot, a ninnau yr un modd, nid oedd ei ofid am Sodom yn ei wneud yn gyfiawn, ond yn hytrach yn ganlyniad i'r ffaith ei fod wedi credu Duw, ac fel yn achos ei ewythr Abraham: 'Credodd Abram yn yr ARGLWYDD, a chyfrifodd yntau hyn yn gyfiawnder iddo' (Genesis 15:6; Rhufeiniaid 4:3; Galatiaid 3:6). Ein hunig obaith fel pobl yw'r cyfiawnder sydd inni yn yr Efengyl, yn hytrach nag unrhyw gyfiawnder ynom!

Ond mae pwy ydym yng ngolwg Duw i fod i'w ddangos ei hun yn yr hyn a wnawn. Er bod yna ambell awgrym fod Lot yn ceisio gwneud hyn, nid y lleiaf o'r awgrymiadau hyn yw'r ffordd y mae Pedr yn adrodd amdano. Eto, fe'i cawn yn un, fel ninnau yn aml, sy'n credu, ond yn gwrthod talu pris hynny yn ein bywyd o ddydd i ddydd. Y trasiedi mwyaf am fy analluu i, fel Lot, i beidio 'â chydymffurfio â'r byd hwn, ond bydded ichwi gael eich trawsffurfio trwy adnewyddu eich meddwl, er mwyn ichwi allu canfod beth yw ei ewyllys, beth sy'n dda a derbyniol a pherffaith yn ei olwg ef' (Rhufeiniaid 12:2) yw'r canlyniadau sy'n perthyn i gyfaddawd. Mae'r canlyniadau hyn nid yn unig yn rhai personol, ond yn effeithio ymhell y tu hwnt i fywyd personol.

Symudodd Lot i Sodom i fwynhau'r 'bywyd da'. Roedd wedi llwyddo'n ariannol ac yn berchen tŷ mewn dinas lwyddiannus oedd, yn ôl Eseciel 16:49, 'hi a'i merched yn falch, yn gorfwyta, ac mewn esmwythyd diofal; ond ni roesant gymorth i'r tlawd anghenus'. Ar sail cyfeiriad at y ffaith ei fod yn eistedd ym mhorth y ddinas (19:1), mae'n debyg ei fod yn un o gynghorwyr neu henuriaid y ddinas, ond ei ddiwedd yw colli ei wraig, a mynd i fyw mewn ogof yng nghwmni ei ferched. Gwnaeth y rhain ef yn feddw, ac yn ei feddw-dod mae'n cyflawni llosgach â hwy, er mwyn iddynt gael plant. Roedd teuluoedd y plant hyn am beri gofid pellach yn hanes y genedl, fel y digwyddiad a ysgogwyd gan feibion Moab yn Numeri 25.

Does ryfedd fod Ioan am ein rhybuddio: 'Peidiwch â charu'r byd na'r pethau sydd yn y byd. Os yw rhywun yn caru'r byd, nid yw cariad y Tad ynddo, oherwydd y cwbl sydd yn y byd — trachwant y cnawd, a thrachwant y llygaid, a balchder mewn meddiannau — nid o'r Tad y mae, ond o'r byd' (1 Ioan 2:15–16). Er nad yw'r Beibl yn dweud bod ceisio cysur, arian, ayyb, yn bechod ynddo'i hunan, eto mae Iesu yn ein hatgoffa i sicrhau ble mae'r flaenoriaeth: 'Oherwydd lle mae eich trysor, yno hefyd y bydd eich calon' (Luc 12:34). Pan fyddwn yn byw gyda'r un dyheadau â'r byd, yn llac ein moesau, yn ystyried ein safle yn fwy na'n teulu, a heb gael ein parchu gan y byd oherwydd ein credo, os nad ydym yn siŵr a ydym yn barod i ildio'r byd neu am gadw rhyw ychydig bach o bechod yn ein bywyd, medrwn fod yn sicr ein bod ar lwybr anniogel. Fel y cwch yn y dŵr, mae'r Cristion yn y byd; ond pan mae'r dŵr yn y cwch, mae yna berygl real y bydd yn suddo, a chanlyniadau hynny i ninnau ac i eraill.

Wedi dweud hyn i gyd, diolch fod Duw yn fwy trugarog tuag at ei blant nag y mae'r plant at ei gilydd yn aml iawn. Edrychwch ar adnod 29: 'Felly pan oedd Duw'n dinistrio dinasoedd y gwastadedd, yr oedd wedi cofio am Abraham, a phan oedd yn dinistrio'r dinasoedd y bu Lot yn trigo ynddynt, gyrrodd Lot allan o ganol y dinistr.'

1. Trafodwch ystyr cyfiawnder Duw, ein hanghyfiawnder ni, a chyfiawnhad, drwy ystyried y pennill hwn gan James Hughes yn edrych ar 'deml yr Arglwydd':
   Cyfiawnder Duw sydd yno'n ddisglair iawn,
   a'r gyfraith bur, bob iod ohoni'n llawn;
   Ond, i bechadur, melys yw y sain
   fod trugareddfa hefyd rhwng y rhain.
2. Sut mae adnabod arwyddion fod 'y dŵr yn dod i mewn i'r cwch' yn ein bywydau personol?
3. I ba raddau y byddwn yn ceisio bod yn fwy parod i faddau i Gristnogion na'u condemnio? Beth sy'n ein cynorthwyo i wneud hynny?

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 25 Mehefin am 7.15yh – rhaglen 45 munud**
Mae'r rhaglen yn dathlu'r cwlwm Celtaidd wrth i Ryland fynd ar grwydr i Gernyw. Cawn glywed gan rai o'r brodorion sy'n addoli drwy'r iaith Gernyweg, a mwynhau perfformiad newydd ac unigryw o un o hoff emynau Cymru gan y gantores Suzie Mac.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 25 Mehefin, am 7:30yb a 4:30yp**
Teulu: 3 – Euros Rhys yn cyflwyno'r drydedd raglen mewn cyfres fer am aelodau o'r un teulu sydd wedi cyfrannu tuag at ein hemynyddiaeth

**Sul, 25 Mehefin, am 12yp**
Oedfa dan ofal Hedd Ladd Lewis, Boncath

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru
(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

# Clywed llais

Daw hyfryd fis
Mehefin cyn bo hir
a chlywir y gwcw'n
canu'n braf yn ein tir.

Braidd yn hwyr ydi hi i ddyfynnu'r hen bennill hwn heddiw â mis Mehefin eisoes wedi dod. Ond mi glywais y gog yn canu cyn iddo gyrraedd. Dim ond ychydig ddyddiau, cofiwch, ond digon i'r hen bennill ddal i fod yn berthnasol.

Wrth glywed y gog daw dau beth i'm meddwl. Yn gyntaf, mor anaml y'i clywaf. O bosib bod hynny'n arwydd nad ydw i'n mynd am dro'n ddigon aml, neu o leiaf nad ydw i'n mynd am dro i'r llefydd cywir. Ac yn ail, bod angen i rywun arall dynnu fy sylw at ganiad y gog cyn ac er mwyn i mi ei glywed. Anaml iawn – os o gwbl – y clywais i'r gog yn canu heb i rywun arall dynnu fy sylw ati. Am y rhesymau hynny, mae'n debyg, anaml y clywaf i hi. Unwaith neu ddwy'r flwyddyn o bosib, os hynny hefyd. A dyw hi fawr o help chwaith bod llai o bobl erbyn hyn yn holi a glywais i hi ai peidio. Dwi'n sicr yn un o'r bobl sydd angen help yn y pethau hyn. Glywsoch chi'r gog eleni tybed?

## Llais Duw

Ond dowch i mi ofyn cwestiwn arall. Glywsoch chi Dduw? Glywsoch chi Dduw yn siarad â chi? I lawer, mae ei lais yn fwy dieithr o lawer na chân y gog nac unrhyw aderyn arall. Oes yna Dduw? Ac os oes, ydi'r Duw hwnnw'n dweud unrhyw beth wrthym? Ac os ydyw, oes modd i ni ei glywed? Dieithr a mud yw llais Duw i lawer heddiw, fel erioed. Chlywson nhw mohono, ac maen nhw'n argyhoeddedig nad oes ganddo ddim i'w ddeud prun bynnag.



## Llefydd cywir


Ond tybed ydyn nhw hefyd heb fynd am dro i'r llefydd cywir? I glywed llais Duw yn eglur mae angen mynd i'r Beibl ac at yr Efengyl. Mae'r gog a'i chân, fel popeth arall a greodd Duw, yn dweud rhywbeth wrthym am ei allu a'i ryfeddod. Ond yn y Beibl ac yn y Crist a ddatguddir ynddo y mae Duw wedi siarad fwyaf eglur amdano'i hun a'i gariad. Pa obaith sydd i neb glywed ei lais os nad yw'n mynd am dro'n fynych trwy dudalennau'r llyfr y mae Duw'n ei gyfarch ynddo?

Am wn i nad oes gywilydd mawr o orfod cyfaddef f'angen am help i glywed cân y gwcw. Heb yr help hwnnw, chlywn i mohoni o gwbl. Ac mae arnom help i glywed llais Duw yn ei Air ac yn Iesu Grist. Yr help mwyaf yw'r Ysbryd Glân sy'n egluro'r Beibl i'r sawl sy'n ceisio'i oleuni arno. Ewch am dro trwy Air Duw gan ofyn i'r Ysbryd eich helpu i'w ddeall ac i ymateb iddo fel y mae Duw am i chi wneud.

A does dim cywilydd chwaith mewn ceisio help pobl eraill i glywed Duw'n siarad trwy ei Air a thrwy ei Fab. Diolch am hynny, mae yna bobl sy'n llawer nes na mi at fyd natur ac sydd ganwaith mwy effro i ryfeddodau Cread ein Duw. A thrwy drugaredd Duw, mae yna bobl sy'n gyfarwydd â'i lais ac a fedr fod o gymorth i ninnau.

**John Pritchard**

[Allan o *Gronyn* Sul 4 Mehefin, cylchlythyr Gofalaeth Fro'r Llechen Las]






# Golygyddol

## Tafod Tân

Mae yna adnod yn Llythyr Iago sydd bob amser yn tynnu fy sylw: 'Ystyriwch fel y mae gwreichionen fechan yn gallu rhoi coedwig fawr ar dân. A thân yw'r tafod ...' (Iago 3: 5-6). Ysgrifennaf y geiriau yma yng nghanol poethder Mehefin a sawl stori am sawl tân yn rhwygo drwy'r fforestydd, ac yn amlach na pheidio, rhyw declyn bychan, tanllyd sy'n gyfrifol am hynny. Rhywbeth felly yw'r tafod meddai Iago.



### Amser i dewi

A dyma fynd yn ôl i'r Hen Destament at Lyfr y Pregethwr a'i drydedd bennod gyfarwydd lle mae'r awdur yn pwysleisio fod yna 'amser i bopeth.' Y joban fawr ydi gwybod pa bryd i dewi, pa bryd i fod yn ddistaw. Maddeuwch i mi ddweud peth fel hyn, ond mi rydw i'n ei feddwl o waelod calon – roedd fy nhad yn un o'r bobl fwyaf doeth a gyfarfyddais i erioed; roedd ganddo fo'r ddawn i wybod pa bryd i fod yn ddistaw, ac o ganlyniad yn gwybod sut oedd gwrando ar bobl a'u hamgylchiadau, ac mi fuasai'n dda gan f'enaid i fod wedi cael mymryn o'i ddoethineb o yn y cyd-destun hwnnw. Oherwydd, gadewch i ni fod yn gwbl onest, mi rydan ni'n rhai da fel Cristnogion am bardduo'n gilydd; am weld 'y drwg heb ei gasáu' a 'gweld y da heb ei fawrhau' meddai Dyfnallt, ac yn barod i waldio'n gilydd, os nad yn gorfforol, yn bendant yn eiriol ac emosiynol, a gwneud hynny fel taem ni'n berffaith ein hunain. Na, mae'n bryd i ni ddysgu pryd mae tewi.

### Amser i siarad

Wrth gwrs dyna ail ran yr adnod yn Llyfr y Pregethwr, ond siarad doeth wrth gwrs. Mi rydan ni'n rhai da am siarad fel Cristnogion, a siarad am bopeth. Ga i fynd a chi yn ôl at fy nhad. Mae'n bur debyg ei fod wedi dweud wrth ei weinidog ar y pryd, Ron Williams, Caernarfon a Phorthaethwy, na fyddai angen i Ron baratoi teyrnged iddo ar gyfer ei angladd dair blynedd ar ddeg yn ôl. 'Dywedwch rywbeth am yr Efengyl Ron, nid amdana i.' Ac fe anrhydeddwyd hynny'n llawn yn yr angladd. Onid ydi hi'n bryd i ninnau droi'n ôl at Lythyr Iago a'r un bennod yn union lle dywed: 'A'r un tafod yr ydym yn bendithio'r Arglwydd a'r Tad; a'r tafod hefyd yr ydym yn melltithio'r rhai a luniwyd ar ddelw Duw.'

### Neges i'w dweud

Mae gan Gristnogion neges chwyldroadol i'w dweud mewn cariad a doethineb, ac mae'r neges wedi ei chrynhoi yn y drydedd bennod (eto) o Efengyl Ioan: 'Do, carodd Duw y byd cymaint nes iddo roi ei unig Fab er mwyn i bob un sy'n credu ynddo beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.' Ac mae hi'n neges wefreiddiol heb orfod mynd i chwilio i unman arall am ddim i'w ddweud. Dywedwn hi mewn cariad at bawb.

**Iwan Llewelyn**

## EGLWYS YR ANNIBYNWYR CAPEL COFFA, CYFFORDD LLANDUDNO

Ers rhai blynyddoedd bellach mae Capel Coffa wedi bod o dan weinidogaeth ran amser. Gydag ymddeoliad y gweinidog presennol ym mis Medi, dymuniad yr aelodau yw parhau gyda trefniant tebyg i'r dyfodol.

Gwahoddir gweinidogion o unrhyw enwad i ystyried yr her a'r cyfle a estynnir iddynt drwy fugeilio yr eglwys hon.

Am fanylion pellach cysyllter â chadeirydd y Pwyllgor Bugeiliol:

Mrs Carol Edwards,
Dwyfor, 12 Lôn Goed,
Cyffordd Llandudno,
Conwy LL31 9HE.

**Ffôn: 01492 581082**
**E-bost: carol.tanyberllan@yahoo.co.uk**

## Coleg yr Annibynwyr

Cynhelir cyfarfod i danysgrifwyr Coleg yr Annibynwyr am 18.45 ar nos Fercher 28 Mehefin yn ystod cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb yn y Stiwt Rhosllannerchrugog.

# Tips gweddi

Nid rhywbeth i'w wneud mewn oedfa yn unig yw gweddïo. Mae'n ffordd o fyw. Trwy weddi rydym yn meithrin perthynas gyda'r Arglwydd gan fod yn ymwybodol ei fod gyda ni trwy'r adeg. Felly, mae angen i weddi fod yn rhan o'n bywyd bob dydd. Dyma rai awgrymiadau.

**Tip 1**: Gweddïwch yn syml, gweddïwch yn fyr, gweddïwch yn aml.

**Tip 2**: Darllenwch adnod a gweddïwch yr hyn a ddaw i'ch meddwl.

**Tip 3**: Gweddïwch yn y fan lle rydych am yr hyn sy'n digwydd o'ch cwmpas. Yn y gwaith, gartref, yn y siop ac yn y ciw, wrth gerdded, gyrru'r car (ond peidiwch cau eich llygaid bryd hynny), neu wrth wneud ymarfer corff. Rhaid bod yn fwriadus neu ni fyddwn yn gweddïo.



**Tip 4**: Gweddïwch yn ddisgwylgar. Byddwch yn agored

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Rhaglen Y Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint 2023

*Oni nodir yn wahanol cynhelir y cyfarfodydd yn Y Stiwt, Rhosllannerchrugog*

## DYDD MERCHER, 28 Mehefin 2023

**1.30** **CYNHADLEDD 1 ***
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Beti-Wyn James
Defosiwn yng ngofal y Parchg Aled Lewis Evans

**2.00** Ymddiheuriadau am absenoldeb
Cyflwyno Adroddiad Undeb Gorllewin Caerfyrddin 2022 *(y Llyfr Gwyrdd)*
Croesawu/ethol Trysorydd newydd yr Undeb *
Croesawu darpar-Lywydd newydd yr Undeb *
Croesawu Cyfarfodydd Blynyddol 2024
Eglwysi Dementia-gyfeillgar
Economi Bywyd a Newid Hinsawdd
Y Genhadaeth Ddigidol

**3.00** Te a chacen a chroeso
Croesawu a derbyn ymwelwyr

**4.00** **'Change and Continuity – Looking back or looking ahead? A Postcolonial conversation about Mission' ***
Anerchiad gan yr Athro Anthony Reddie
Cadeirydd: Parchg Jeff Williams

**5.30** Egwyl

**6.00** Swper

**7.30** **CYFLWYNIAD: Beirdd ar y Ffin ***
Noson yng nghwmni beirdd lleol

## DYDD GWENER, 30 Mehefin 2023

**9.30** Defosiwn yng ngofal y Parchg Trefor Jones-Morris *

**10.00** **Cyfarfod Hanes: 'Damwain a hap, ac athrylith Richard Price (1723–91)' ***
Yr Athro Gareth Ffowc Roberts
Cadeirydd: Miss Joan Thomas

**11.00** Te/coffi

**11.30** **Lansio Apêl Cymorth Cristnogol: Ffynhonnau Byw ***

**12.00** **CYNHADLEDD 4 ***
Cadeirydd: Parchg Beti-Wyn James
Argraffiadau'r Llywydd
Cydnabod gwasanaeth Trysorydd yr Undeb, Miss Meryl James
Casgliad i Cymorth Cristnogol
Emyn
Trosglwyddo'r Beibl i'r llywydd newydd
Gweddi: Parchg Robin Wyn Samuel
Emyn
Y Fendith

**1.00** Cinio ac ymadael

## DYDD IAU, 29 Mehefin 2023

**9.30** **CYNHADLEDD 2 ***
Cadeirydd: Y Llywydd, y Parchg Beti-Wyn James
Defosiwn yng ngofal y Parchg Aled Lewis Evans

**10.00** Adroddiad y Trysorydd
Adroddiad y Pwyllgor Gweinyddol
*Y Tyst*
Etholiadau:
- 2 i wasanaethu ar y Cyngor am 3 blynedd
- Hyd at 3 i wasanaethu ar y Pwyllgor Gweinyddol am 3 blynedd
- cyfreithiwr ac archwiliwr am y flwyddyn

**11.00** Te/coffi

**11.30** Adroddiad y Cyngor a'i Adrannau

**12.00** Cynllun Hyfforddi: Carwyn Siddall, Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau
Y Panel Diogelu: Julie Edwards a Sian Jones

**1.00** Cinio

**2.00** **CYNHADLEDD 3**
Cadeirydd: Y Llywydd, Parchg Beti-Wyn James
Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol *
Penderfyniadau:
Derbyn gweddill cofnodion y *Llyfr Glas*
Unrhyw Fater Arall
Y Fendith

**3.30** Te/coffi

**4.00** **Cyfarfod Heddwch: 'Beth ydy rôl Cymru yn y mudiad heddwch rhyngwladol yn yr G21ain?' ***
Mabon ap Gwynfor AS
Cadeirydd: Parchg Guto Prys ap Gwynfor

**5.00** Egwyl

**5.30** Swper

**7.30** **OEDFA O FAWL** yng Nghapel y Groes, Wrecsam, *
Llywydd: Parchg Beti-Wyn James
Galwad i addoli
Emyn
Darllen: Parchg Aled Davies
Gweddïo: Parchg Dr Alun Tudur
Gweddi'r Arglwydd
Casgliad i Cymorth Cristnogol
Emyn
Coffáu'r rhai a fu farw. Gweddi: Parchg Trefor Jones Morris
Dymuno'n dda i weinidogion a ymddeolodd
Croesawu gweinidogion newydd
Emyn
Pregeth: Parchg Iwan Llewelyn Jones
Emyn
Y Fendith

*Dangosir Cyflwyniadau Cwpan Denman yn ystod y cynadleddau*

*** Caiff y digwyddiadau hyn eu ffrydio'n fyw ar wefan annibynwyr.cymru**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*